| Ychwanegiadau - rhodd a warantwyd gan y Llywodraeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Trosglwyddiadau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Diffygion | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ailbrisiadau eraill o fewn blwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Gwerthiannau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 7 | 0 | **7** |
| **Hyd at 31 Mawrth 2005** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 13 | 0 | **13** |
| **Gwerth llyfr Hyd at 1 Ebrill 2004** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 26 | 0 | **26** |
| **Gwerth llyfr Hyd at 31 Mawrth 2005** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 60 | 0 | **60** |

**Gwerth llyfr net asedau a gynhaliwyd o dan les ariannol a chytundebau hur bwrcas:**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |

**Cyfanswm y dibrisiad a godir yn y Datganiad cost gweithredu o safbwynt asedau a gynhelir o dan les ariannol a chytundebau hur bwrcas**

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |

## Asedau Sefydlog Diriaethol (parhad)

**Gwerth llyfr net tir ac adeiladau hyd at 31 Mawrth 2005 yn cynnwys:**

| | £000 |
|---|---|
| Rhydd-ddaliad | 0 |
| Lesddaliad hir | 0 |
| Lesddaliad byr | 0 |
| | 0 |

**CYFANSWM**

**Elw/(colled) net wrth waredu asedau sefydlog**

| | £000 |
|---|---|
| Yn ystod y flwyddyn, gwaredodd y BILl asedau sefydlog gwerth llyfr net | 0 |
| Elw gros o'r gwerthiant oedd | 0 |
| Gan roi elw/(colled) wrth waredu | 0 |
| | |
| Talodd y BILl i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yr arian net | 0 |
| ar ôl gwaredu a chynnal costau gwaredu | 0 |

## 6.1 Dyledwyr

| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | £000 | Ailddatgan 2003-04 £000 |
|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 84 | 49 |
| Comisiwn Iechyd Cymru | 131 | 0 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 105 | 591 |
| Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol | 0 | 0 |
| Ymddiriedolaethau GIG | 1 | 27 |
| Cronfa Risg Cymru | 0 | 0 |
| Dyledwyr cyfalaf | 0 | 0 |
| Dyledwyr eraill | 236 | 259 |
| Darparu dyledion na ellir eu hadfer | 0 | 0 |
| Cyndaliadau Pensiwn: | 0 | 0 |
| Cyndaliadau ac incwm sy'n deillio | 18 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **575** | **926** |

| Swm sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | £000 | £000 |
|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | **0** | 0 |
| Comisiwn Iechyd Cymru | **0** | 0 |
| Byrddau Iechyd Lleol | **0** | 0 |
| Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol | **0** | 0 |
| Ymddiriedolaethau GIG | **0** | 0 |
| Cronfa Risg Cymru | **0** | 0 |
| Dyledwyr cyfalaf | **0** | 0 |
| Dyledwyr eraill | **0** | 0 |
| Darparu dyledion na ellir eu hadfer | **0** | 0 |
| Cyndaliadau Pensiwn: | **0** | 0 |
| Cyndaliadau ac incwm sy'n deillio | **0** | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM** | **575** | **926** |

## 6.2 Credydwyr

| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | £000 | Ailddatgan 2003-04 £000 |
|---|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru | 0 | 0 |
| Comisiwn Iechyd Cymru | 117 | 0 |
| Byrddau Iechyd Lleol | 47 | 53 |
| Ymddiriedolaethau GIG | 434 | 1,576 |
| Ymddiriedolaethau Gofal Cychwynnol | 103 | 0 |
| Trethn incwm a nawdd cymdeithasol | 0 | 0 |
| Credydwyr di-GIG | 7,808 | 7,636 |
| Credydwyr Cyfalaf | 0 | 0 |
| Gorddrafft | 0 | 0 |
| Rhent sy'n ddyledus ar les gweithredu | 0 | 0 |
| Goblygiadau o dan les a chytundebau ariannol | 0 | 0 |
| Arbedion: GPFH | 0 | 10 |
| Pensiynau: Staff | 0 | 0 |
| Croniadau | 0 | 0 |
| Incwm Gohiriedig | 0 | 518 |
| Credydwyr eraill | **0** | **0** |
| **CYFANSWM** | **8,509** | **9,793** |

## 6.3 Credydwyr

| Swm sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | Total £000 | 2003-04 Total £000 |
|---|---|---|
| Goblygiadau o dan les ariannol a chytundebau HP | 0 | 0 |
| Credydwyr GIG | 0 | 0 |
| Benthyciadau'r Cynlluniad | 858 | 858 |
| Pensiyinau: Staff | 0 | 0 |
| Arall | 0 | 0 |
| **CYFANSWM** | **858** | **858** |

## 6.4 Darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

| | Ar 1 Ebrill 2004 | Cytundeb Strwythuredig Trosglwyddwyd achosion i WRP | Trosglwyddo darpariaeth i gredydwyr | Codi yn ystod y flwyddyn | Gwrthdaro heb ei ddefnyddio | Defnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | Dad-ddirwyn disgownt | Hyd at 31 Mawrth 2004 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Esgeulustod clinigol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Niwed personol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Holl golledion a thaliadau arbennig eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ffioedd cyfreithiol amddiffyn ac eraill | | | | | | | | |
| Costau gweinyddu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | | **0** |
| **Is-gyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| Pensiynau | 0 | | | 0 | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Arall | 0 | | | 317 | 0 | 0 | | **317** |
| **Cyfanswm** | **0** | **0** | **0** | **317** | **0** | **0** | **0** | **317** |

**Amseriad arfaethedig llif arian:**

| | O fewn blwyddyn | Rhwng 2 a 5 mlynedd | Ar ôl 5 mlynedd | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Esgeulustod clinigol | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Niwed personol | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Holl golledion a thaliadau arbennig eraill | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Ffioedd cyfreithiol amddiffyn ac eraill | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Pensiynau | 0 | 0 | 0 | **0** |
| Arall | 317 | 0 | 0 | **317** |
| **Cyfanswm** | **317** | **0** | **0** | **317** |

Mae'r BILl yn amcangyfrif y bydd yn derbyn £ Nil yn 2005-06 ac yn 2006-07 ac ar ôl hynny £ Nil gan Gronfa Risg Cymru ar gyfer colledion a thaliadau arbennig.

**Troednodyn 1:**

Dim ond i'r costau gofal parhaus hynny sy'n digwydd ar ôl 1 Ebrill 2003 sy'n cael eu hadolygu gan Ombwdsmon y GIG y mae'r ddarpariaeth ar gyfer gofal parhaus o £316,940 yn berthnasol. Mae'r holl gostau yn destun adolygiad gan yr Ombwdsmon ac mae darpariaeth wedi ei sefydlu yn ymwneud â chyfnodau cyn 1 Ebrill 2003 sy'n cael eu cyfrifo yng nghyfrifon Bwrdd Iechyd Lleol Powys, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

## 6.5 Cronfa Gyffredinol

**Roedd symudiadau yn y Gronfa Gyffredinol o fewn y flwyddyn yn cynnwys:**

| | £000 |
|---|---|
| **Ar 1 Ebrill 2004** | (4,170) |
| Cyn addasu'r cyfnod | (5,530) |
| **Ar 1 Ebrill 2004 fel yr ail ddatganwyd** | (9,700) |
| Cost gweithredu net am y flwyddyn ariannol | (143,497) |
| Cyllid net gan y Cynulliad (gan gynnwys cyfalaf) | 145,481 |
| Llog tâl cyfalaf | (329) |
| Trosglwyddo i gyrff GIG | 0 |
| Trosglwyddo i gronfa gyffredinol elfennau o'r gronfa wrth gefn ailbrisio | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2005** | (8,045) |

## 6.6 Cronfa Wrth Gefn Asedau Rhodd

**Roedd y symudiadau yn y gronfa wrth gefn asedau rhodd yn y flwyddyn yn cynnwys:**

| | £000 |
|---|---|
| **Balans hyd at 1 Ebrill 2004** | 0 |
| Ychwanegiadau | 0 |
| Diffygion | 0 |
| Ailbrisio a mynegeio | 0 |
| Gwaredu a diddymu | 0 |
| Dibrisio | 0 |
| **Balans ar 31 Mawrth 2005** | 0 |

## 6.7 Cronfa wrth gefn ail-brisio

**Roedd symudiad y gronfa wrth gefn ailbrisio am y flwyddyn yn cynnwys:**

| | £000 |
|---|---|
| **Balans hyd at 1 Ebrill 2004** | 1 |
| Ailbrisio | 0 |
| Mynegeio | 1 |
| Trosglwyddo i gronfa gyffredinol - ailbrisio wedi'i wireddu | 0 |
| **Balans hyd at 31 Mawrth 2005** | 2 |

## 6.8 Rhwymedigaethau wrth gefn - nid yw'r colledion/enillion wrth gefn canlynol wedi eu cynnwys yn y cyfrifon -

| Natur: | £000 | Ansicrwydd yn effeithio ar y deilliant: |
|---|---|---|
| Ceisiadau cyfreithiol trydydd parti | 0 | |
| Dyledion amheus | 0 | |
| Arall | 0 | |
| **CYFANSWM** | **0** | |

Ym mis Mawrth 2005 cyhoeddodd Llywodraeth Cynuliad Cymru hysbysebion mewn papurau cenedlaethol a lleol yn gwahodd achosion i gael eu cyflwyno i'w hadolygu gan Ombwdsmon y GIG i bennu a yw'n gywir eu hystyried yn achosion o ofal parhaus ac felly eu bod yn cael eu hariannu gan y BILl. Er bod achosion pellach wedi eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac efallai fod achosion pellach sydd heb eu cyflwyno i'r Ombwdsmon hyd yn hyn, nid oes gan y BILl unrhyw wybodaeth am ddilysrwydd, gwerth neu hyd a lled yr hawliadau ar hyn o bryd ac nid oes darpariaeth ychwanegol wedi ei gwneud ar gyfer yr hawliadau ychwanegol hyn.

## 6.9 Balans o fewn y Llywodraeth

| | Dyledwyr: Swm yn gostwng o fewn blwyddyn £000 | Dyledwyr: Swm dyledwyr yn gostwng ar ôl mwy na blwyddyn £000 | Credydwyr Swm sy'n gostwng o fewn blwyddyn £000 | Credydwyr Swm sy'n gostwng ar ôl mwy na blwyddyn £000 |
|---|---|---|---|---|
| Balans gyda chyrff llywodraeth leol eraill | 89 | 0 | 0 | 858 |
| Balans o fewn awdurdodau lleol | 81 | 0 | 1098 | 0 |
| Balans o fewn Ymddiriedolaethau GIG ac Ymddiriedolaethau Sylfaen | 1 | 0 | 537 | 0 |
| Balans o fewn Byrddau Iechyd Lleol | 105 | 0 | 47 | 0 |
| Balans o fewn cyrff cyhoeddus a chronfeydd masnachu | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Balans gyda chyrff y tu allan i'r llywodraeth | 131 | 0 | 117 | 0 |
| **Cyfanswm hyd at 31 Mawrth 2005** | **407** | **0** | **1799** | **858** |

## 6.10 Gweithgareddau yn dilyn y fantolen

**Gweithgareddau yn dilyn y fantolen ag effaith sylweddol ar y cyfrifon:**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | ………………………………………………………………………………. | **0** |
| | ………………………………………………………………………………. | **0** |
| **2.** | ………………………………………………………………………………. | **0** |
| | ………………………………………………………………………………. | **0** |
| **CYFANSWM** | | **0** |

## 6.11 Ymrwymiadau cyfalaf

**Mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol yr ymrwymiadau cyfalaf canlynol:**

| | |
|---|---|
| Contractio | **0** |
| Awdurdodedig ond heb gontractio | **0** |
| **CYFANSWM** | **0** |

## 6.12 Gweithrediadau Sefydliadau Cysylltiol

| | £000 |
|---|---|
| Cyfanswm gweithrediadau gydag aelodau'r Bwrdd a staff allweddol uwch yn 2004-05 | 0 |

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg yn gorfforaeth a sefydlwyd trwy orchymyn y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Cynulliad yn cael ei ystyried fel sefydliad cysylltiol. Yn ystod y flwyddyn, cafodd Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg nifer o weithrediadau gyda'r Cynulliad ac eraill y mae'r Cynulliad yn cael ei ystyried fel y corff rhiant, yn benodol

Bwyrdd Iechyd Lleol Caerdydd;
Bwyrdd Iechyd Lleol Merthyr Tudful;
Bwyrdd Iechyd Lleol Rhondda Cynon Taf;
Bwyrdd Iechyd Lleol Powys (BSC Caerdydd);
Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol;
Cronfa Risg Cymru;

Yn ogystal, mae gan y Bwrdd Iechyd Lleol nifer sylweddol o drafodion materol gydag Adrannau eraill y Llywodraeth a chyrff canolog a lleol eraill y Llywodraeth. Bu'r rhan fwyaf o'r trafodion hyn gyda Chyngor Bro Morgannwg mewn perthynas â mentrau ar y cyd.

Yn ystod y flwyddyn nid oedd yr un aelod o'r bwrdd nac aelodau rheoli allweddol na sefydliadau cysylltiol eraill wedi ymgymryd ag unrhyw weithrediadau sylweddol gyda BILl Bro Morgannwg .

Derbyniodd aelodau Meddyg Teulu, Opometrydd a Fferylliaeth y Bwrdd daliadau i'w practisau meddygol, optegydd neu fferylliaeth gan y BILl. Gwnaed y taliadau dan amodau masnachu arferol rhwng y BILl a phractisau o'r fath, h.y. fel trafodion hyd braich.

| Aelod y Bwrdd | Enw'r Practis | Sylw |
|---|---|---|
| Arbuthnot E | Arbuthnot Optrometrist | Talwyd dan amodau masnachu arferol |
| Baig A | Vale Family Practice | Talwyd dan amodau masnachu arferol |
| Edwards SJ | Fferyllfa SJ Edwards | Talwyd dan amodau masnachu arferol |
| McGovern D | Canolfan Iechyd y Bont-faen | Talwyd dan amodau masnachu arferol |
| Webber BD | BD Webber, Llawfeddyg Deintyddol | Talwyd dan amodau masnachu arferol |

## 6.12 Gweithrediadau Sefydliadau cysylltiol

Nid oes angen gwybodaeth bellach

## 6.13 Colledion a thaliadau arbennig

| | Nifer yr achosion | Gwerth yr achosion £ |
|---|---|---|
| Niwed personol | 0 | 0 |
| Achosion twyll | 0 | 0 |
| Holl golledion a thaliadau arbennig eraill | 2 | 90,603 |
| Cyfanswm colledion a thaliadau arbennig | 2 | 90,603 |

Dadansoddiad o achosion sy'n fwy na £100,000 a phob achos arall

| | Symiau a dalwyd yn ystod y flwyddyn £ | Swm cronnus £ | Cymeradwy-wyd i'w ddileu o fewn y flwyddyn £ |
|---|---|---|---|
| **Achosion sy'n fwy na £100,000** | | | |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| | 0 | 0 | 0 |
| **Is-gyfanswm** | 0 | 0 | 0 |
| **Pob achos arall** | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm yr achosion** | 0 | 0 | 0 |

## 6.14 Offer Ariannol

Mae FRS13, Deilliannau ac Offerynnau Ariannol Eraill angen datgelu rôl ariannol yn ystod cyfnod creu neu newid wyneb risg a hanfodion wrth ymgymryd â'i weithgareddau. Oherwydd y modd mae BILlau Cymru yn cael eu cyllido nid ydynt yn wynebu'r un risg ariannol sy'n wynebu busnesau. Hefyd, mae offer ariannol yn chwarae rôl mwy cyfyngol wrth greu neu newid risg a fyddai'n nodweddiadol o'r cwmniau a restrwyd sy'n berthnasol i FRS 13. Nid oes gan y BILl unrhyw rymm i fenthyg na buddsoddi arian sy'n weddill a chynhyrchir asedau a rhwymedigaethau ariannol trwy weithgareddau o ddydd i ddydd yn hytrach na newid y risg sy'n wynebu'r BILl wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

**Risg Hylifedd**

Mae dyraniadau incwm a gwariant cyfalaf y BILl yn cael ei gyllido gan adnoddau a bleidleisir yn flynyddol gan y Senedd. Felly, ni ddatgelwyd i risg hylifol sylweddol.

**Risg Cyfraddau Llog**

Mae holl asedau ariannol a rhwymedigaethau ariannol y BILl yn cynnwys dim neu gyfraddau llog sefydlog. Felly, nid oes unrhyw risg i gyfraddau llog.

**Risg Arian Tramor**

Mae gan y BILl incwm a gwariant tramor dibwys. Felly, nid oes unrhyw risg i arian tramor sylweddol.

## 6.15 Goblygiadau Les Ariannol

**Roedd taliadau lleiafswm les yr ymrwymwyd y Bwrdd Iechyd Lleol iddo ar ddyddiad y fantolen fel a ganlyn**

| | £000 |
|---|---|
| O fewn blwyddyn | 0 |
| Rhwng blwyddyn a 5 mlynedd | 0 |
| Ar ôl 5 mlynedd | 0 |
| **Is-gyfanswm** | **0** |
| Llai taliadau ariannol a ddyranwyd ar gyfer cyfnodau yn y dyfodol | 0 |
| **CYFANSWM** | **0** |

**Gellir dadansoddi goblygiadau net o dan brydles ariannol fel a ganlyn:**

| | |
|---|---|
| Credydwyr: swm yn ddyledus o fewn blwyddyn | 0 |
| Credydwyr: swm yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn | 0 |

## 6.16 Cyllidebau mewn Cronfa

Ddim yn berthnasol

## 7.1 Tîm Comisiynu yr Ail Gynnig

Yn ystod 2004/05 bu BILl Rhondda Cynon Taf LHB yn gartref i Dîm Comisiynu yr Ail Gynnig.
Cafodd BILl Rhondda Cynon Taf gyllid gan y Cynulliad i dalu costau cynnal y Tîm a hefyd gostau a oedd yn gysylltiedig â gofal iechyd y cleifion a oedd yn cael triniaeth dan Gynllun yr Ail Gynnig.

Roedd cyfanswm y costau a oedd yn gysylltiedig â gofal iechyd ar gyfer 2004/05 yn £6.892m, a oedd yn cynnwys £0.735m ar drin cleifion o ardal Bro Morgannwg.

## 7.2 Addasiad Cyfnod Blaenorol (ACB)

Ers eu sefydlu ar 1 Ebrill 2003, mae Byrddau Iechyd Lleol wedi bod o fewn terfyn cyfrifo adnoddau'r Cynulliad a dylai eu cyfrifon blynyddol gydymffurfio â Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau Trysorlys EM.

Yn achos cyfrifo adnoddau, mae arian gan y Cynulliad bellach yn cael ei drin fel 'cyllid' yn hytrach nag 'incwm' ac ni ddylai unrhyw ddyledwyr neu gredydwyr mewn perthynas â chyllid y Cynulliad fodoli ar ddiwedd y flwyddyn. Yn 2003/04 ni chafodd yr agwedd hon ar gyfrifo adnoddau ei defnyddio mewn perthynas â chyfrifon y BILl ar gyfer trafodion cyllid a wnaed yn 2003/04 nac mewn perthynas â mantolenni y gwnaethant eu hetifeddu gan yr Awdurdodau Iechyd blaenorol. Felly roedd y cyfrifon yn 2003/04 yn cynnwys y cyfryw fantolenni yn anghywir.

O'r herwydd, roedd angen ACB yn 2004/05 i hepgor y mantolenni hyn ac adlewyrchu cyflwyno cyfrifo adnoddau yn llawn.  Mae symudiad net mewn mantolenni dyledwyr/credydwyr o ganlyniad wedi ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol yn y cyfnod blaenorol.

Ceir manylion y ACB isod:

| | £'000 |
|---|---|
| Lleihad mewn Dyledwyr | 5,639 |
| Lleihad mewn Credydwyr | 109 |
| Cynnydd yn y Gronfa Gyffredinol | 5,530 |

Effaith y ACB hwn ar ganlyniadau cyfrifon 2003/04 yw cynyddu'r Gronfa Gyffredinol a lleihau asedau net £5,530k.

## 7 Gwybodaeth Ychwanegol parhad

Nid oes angen gwybodaeth bellach

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R PRIF WEITHREDWR FEL SWYDDOG SY'N ATEBOL O'R BWRDD IECHYD LLEOL

Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi rhoi cyfarwyddyd mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog sy'n Ate i'r BILl. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion sy'n Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb i fod yn berchen a rheoleiddio'r arian cyhoeddus yr oeddynt yn gyfrifol amdano, ac am gadw cofnodion cywir, wedi eu gosod ym Memorandwm y Swyddog sy'n Atebol a gyhoeddwyd gan y Cynulliad.

Hyd eithaf fy ngwybodaeth, rwyf wedi derbyn y cyfrifoldebau a osodwyd yn fy llythyr penodiad fel Swyddog sy'n Atebol.

Dyddiad: ........................ 2005 .......................................................... Prif Weithredwr

## DATGANIAD CYFRIFOLDEBAU'R CYFARWYDDWYR O SAFBWYNT Y CYFRIFON

Mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr o dan y Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 baratoi cyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys yn cadarnhau bod y rhain yn rhoi barn deg a chywir o faterion y BILl ac incwm a gwariant y BILl am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r cyfrifon hyn, mae'n ofynnol i'r cyfarwyddwyr:

- weithredu polisiau cyfrifa gan y Cynulliad yn rheolaidd gyda chymeradwyaeth y Trysorlys

- gyflwyno barn ac amcangyfrif sy'n gyfrifol ac yn synhwyrol.

- nodi a ddilynwyd safonau cyfrifa perthnasol, yn amodol ar waredu unrhyw ddeunydd a ddatgelir ac eglurir yn y cyfrif

Mae'r cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifa cywir sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr awdurdod a'u galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â gofynion a amlinellwyd yn y cyfarwyddyd uchod y soniwyd amdano gan y Cynulliad.

**Trwy Orchymyn y Bwrdd**

**Arwyddwyd:**

Cadeirydd:………………………………………….. Dyddiad: .................................... 2005

Prif Weithredwr: ............................................. Dyddiad: .................................... 2005

Cyfarwyddwr Cyllid: ........................................ Dyddiad: .................................... 2005

## DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

### 1. Hyd a lled cyfrifoldeb

Mae'r Bwrdd yn atebol am reolaeth fewnol. Fel Swyddog Atebol a Phrif Weithredwraig y Bwrdd hwn, rwy'n gyfrifol am gynnal system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, tra'n diogelu arian y cyhoedd ac asedau'r sefydliad hwn yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt, yn unol â'r cyfrifoldebau a bennwyd gan Swyddog Cyfrifo GIG Cymru.

Fel Swyddog Atebol, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y systemau rheolaeth fewnol. Ceir system adrodd ac atebolrwydd gynhwysfawr drwy'r tîm rheoli i'r Tîm Gweithredol a Bwrdd y BILl. Darperir sicrwydd o fesurau rheoli gan Archwilio Mewnol ac Allanol a phwyllgorau fel y Pwyllgor Archwilio a Risg, y Pwyllgor Rheolaeth Glinigol a'r Grŵp Rheoli Risg. Caiff pob penderfyniad ei gofnodi ac mae amcanion personol Aelodau sy'n Swyddogion ac Aelodau nad ydynt yn Swyddogion a phob aelod o staff yn deillio o strategaeth ac amcanion trefniadol y BILl.

Yn ogystal, caiff y fframwaith rheoli risg ac atebolrwydd ei gefnogi drwy:

- Atebolrwydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru drwy gynllun dirprwyo ac adolygu perfformiad.
- Caiff y BILl ei fonitro'n fisol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn ffurfiol bob chwarter.
- Mae cyfathrebu rheolaidd yn sicrhau bod y Cynulliad yn ymwybodol o risgiau sylweddol.
- Pan fo newidiadau i brosesau a gweithdrefnau gofynnol, mae cyfathrebu parhaus gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru yn sicrhau bod y Bwrdd yn rhoi'r mecanweithiau angenrheidiol ar waith i gydymffurfio â'r Cyfarwyddebau hyn.
- Caiff Partneriaid Awdurdod Lleol eu cynrychioli ar Fwrdd y BILl ac maent yn rhan o'n trefniadau rheoli.
- Caiff cytundebau gyda sefydliadau anstatudol a Phartner y GIG eu rheoli drwy'r prosesau Cytundeb Hirdymor a Chytundeb Lefel Gwasanaeth.

### 2. Pwrpas y System Reolaeth Fewnol

Nod y system reolaeth fewnol yw rheoli risg ar lefel resymol yn hytrach na dileu'r holl risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd pendant, o effeithiolrwydd y mae'n gallu ei roi. Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sydd â'r nod o nodi a blaenoriaethu risgiau i'r gwaith o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion sefydliadol, gwerthuso pa mor debygol yw hi y bydd y risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith pe baent yn cael eu gwireddu, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac yn ddarbodus.

Mae'r system reolaeth fewnol wedi bod ar waith yn y Sefydliad ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2005 a hyd at ddyddiad yr adroddiad blynyddol a chyfrifon ac mae'n cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### 3. Gallu i ymdopi â risg

Mae Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg yn nodi'r egwyddorion, strwythurau a phrosesau rheoli risg ar gyfer y sefydliad. Mae'r Bwrdd yn darparu arweinyddiaeth i sicrhau bod risg yn cael ei rheoli'n briodol. Mae'r Bwrdd yn cyflawni ei gyfrifoldebau rheoli risg corfforaethol drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg a'i gyfrifoldebau rheolaeth glinigol drwy'r Pwyllgor Rheolaeth Glinigol ac mae cyswllt amlwg wedi'i sefydlu rhwng y ddau bwyllgor hwn. Y Prif Weithredwr sy'n gyffredinol atebol am reoli risg. Cafodd y cyfrifoldeb am reoli risg ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr Cyllid a caf cyfrifoldeb am reolaeth glinigol ei ddirprwyo i' r Cyfarwyddwr Nyrsio. Mae uwch reolwyr yn gyfrifol am sicrhau l risgiau'n cael eu nodi a'u hadolygu a bod y fframwaith rheoli risg yn cael ei weithredu ledled y BILl. Mae gweitl y Grŵp Rheoli Risg yn cynorthwyo'r Cyfarwyddwr Cyllid i gydgysylltu gweithgareddau rheoli risg. Mae cyfrifoldeb eglur dros reoli risg yn rhan o ddisgrifiad swydd pob aelod o staff y BILl. Mae'r Strategaeth a

Fframwaith Rheoli Risg wedi ei ddosbarthu i staff ledled y sefydliad ac mae wedi ei gynnwys yn y pecyn sefydlu ar gyfer staff newydd. Mae Cynllun Datblygu Sefydliadol y BILl yn sicrhau bod hyfforddiant rheoli risg a rheolaeth glinigol yn cael ei ddarparu’n rheolaidd i staff ac aelodau’r Bwrdd.

**4. Y fframwaith risg a rheoli**

Mabwysiadodd Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg y Strategaeth a Fframwaith Rheoli Risg ym mis Ionawr 2004. Mae'n nodi'r strwythurau a'r prosesau ar gyfer nodi a rheoli risg. Mae pob gweithgarwch rheoli risg yn cyd-fynd â nodau corfforaethol, amcanion a blaenoriaethau sefydliadol y BILl. Mae nodi a dadansoddi risg yn rhan o weithgareddau cynllunio strategol, cynllunio busnes, comisiynu a gweithio mewn partneriaeth y sefydliad.

Mae'r strategaeth rheoli risg:

- Wedi ei chymeradwyo gan y Bwrdd;
- Yn nodi agwedd y sefydliad at risg;
- Yn diffinio'r strwythur ar gyfer rheoli a derbyn cyfrifoldeb am risg ac ar gyfer rheoli sefyllfaoedd lle mae methiant mesurau rheoli yn arwain at wireddu risgiau;
- Yn diffinio'r ffordd y dylid ystyried materion risg ar bob lefel o waith cynllunio busnes, o'r broses gorfforaethol i'r gwaith o bennu amcanion aelodau unigol o staff;
- Yn nodi sut bydd gweithgareddau newydd yn cael eu hasesu am risg a'u hymgorffori mewn strwythurau rheoli risg;
- Yn sicrhau dealltwriaeth gyffredin o'r termau a ddefnyddir mewn perthynas â materion risg;
- Yn diffinio'r strwythurau ar gyfer cael sicrwydd am reoli risg;
- Yn diffinio'r meini prawf a fydd yn llywio'r gwaith o asesu risg a'r diffiniad o risgiau penodol fel rhai "allweddol"; ac
- Yn diffinio'r ffordd y bydd y gofrestr risgiau a meini prawf gwerthuso risg yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar gydymffurfio â gofynion safonau Rheoli Risg Cymru:

Safon A - Polisi a Strategaeth rheoli risg
Safon B - Asesu ac Ymdrin â risg
Safon C - Adrodd Digwyddiadau a Pheryglon
Safon D - Polisïau a gweithdrefnau
Safon E - Llywodraethu
Safon F - Rheolaeth Ariannol
Safon G - Hwyluso darparu gofal sylfaenol yn ddiogel
Safon I - Rheoli Cofnodion

Mae BILl Bro Morgannwg wedi llwyddo i gyflawni'r gydymffurfiaeth ofynnol ar gyfer 2004-05 yn erbyn Safonau A, B, C, D, E, F, G ac I. Roedd gofyn hefyd i'r BILl gyflawni sgôr cydymffurfiaeth o ddim llai na 70% yn gyffredinol. Yn ôl asesiad allanol gan Gronfa Risg Cymru, mae BILl Bro Morgannwg wedi cyflawni sgôr cydymffurfio cyffredinol o 75%.

Rwy'n fodlon bod system gadarn o reoli mewnol wedi bod ar waith gydol y flwyddyn ariannol lawn ac mae'n parhau i fod ar waith. Mae'r ffaith ein bod wedi bodloni gofynion Safonau Rheoli Risg Cymru yn brawf o hyn.

**5. Adolygu effeithiolrwydd**

Fel Swyddog Atebol, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol yn cael ei lywio gan waith yr archwilwyr mewnol a'r swyddogion gweithredol o fewn y Sefydliad sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith reolaeth fewnol, a sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Rwyf wedi cael fy hysbysu am oblygiadau canlyniad fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol

gan y Bwrdd, y Pwyllgor Archwilio a Risg ac yn bwriadu mynd i'r afael â gwendidau i sicrhau bod y system sydd ar waith yn parhau i wella.

Rwyf wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y Trysorlys o ran rhoi system reolaeth fewnol effeithiol ar waith yn llawn. Mae fframwaith sicrwydd y Bwrdd a thystiolaeth o gydymffurfiaeth â gofynion craidd Safonau Rheoli Risg Cymru yn dangos hyn.

**6. Materion Rheolaeth Fewnol Arwyddocaol**

Mae gweithredu'r contract Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol newydd yn ystod 2004-05 wedi newid y system dalu ar gyfer Ymarfer Cyffredinol yn sylweddol. Mae BILl Bro Morgannwg, ynghyd â'r Ganolfan Gwasanaethau Busnes, wedi mynd ati i roi prosesau ar waith i sicrhau cywirdeb y trafodion hyn. Mewn dau faes penodol, mae angen gwaith pellach i ddatblygu'r prosesau hyn yn llawn:

- Oherwydd materion cyfrinachedd cleifion, nid oedd y BILl yn gallu adolygu'r dangosyddion clinigol yn y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd ar y dechrau. Cafwyd caniatâd i gynnal adolygiad o ddata clinigol ym mis Ionawr 2005 ond nid yw'r ymarfer hwn wedi ei gwblhau ar ddata 2004/05, er y cwblhawyd asesiad risg i sicrhau bod y BILl yn fodlon â'r taliadau a wnaed. Bydd trefniadau'n cael eu rhoi ar waith i adolygu'r dangosyddion clinigol ar gyfer y Fframwaith Canlyniadau Ansawdd ar gyfer adolygiadau ymarfer 2005-06.

- Nid yw ymweliadau cadarnhau ar ôl gwneud taliadau y BILl i adolygu taliadau a wnaed dan gytundebau Gwell Gwasanaethau wedi eu cynnal hyd yn hyn. Mae GPC (Cymru) a Byrddau Iechyd Lleol yng Nghymru bellach wedi cytuno ar brotocol yn ddiweddar i gynnal ymweliadau o'r fath ac mae trefniadau bellach yn cael eu rhoi ar waith i gynnal ymweliadau cadarnhau ar ôl gwneud taliadau ar gyfer Gwell Gwasanaethau ar gyfer 2005/2006.

Mae'r Bwrdd wedi ei hysbysu'n llawn am y sefyllfa hon yn ystod 2004-05 drwy'r Pwyllgor Archwilio.

Mae Rhaglen Newid Strategol ac Effeithlonrwydd Bro Morgannwg yn nodi cynlluniau'r BILl ar gyfer sicrhau cydbwysedd ariannol ac ad-dalu benthyciadau erbyn diwedd 2008-09 fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Ar y cyfan, mae'r cynllun wedi ei gyflawni yn 2004-05 a llwyddodd y BILl i sicrhau cydbwysedd ar gyfer blwyddyn ariannol 2004-05 ar ôl derbyn addasiad terfyn arian parod ac adnoddau unigryw o £1.149m, sef y benthyciad mwyaf y gellir ei gael. Mae gweithredu'r Rhaglen yn 2005-06 yn rhan annatod o Fframwaith Gwasanaeth a Chyllid 2005-06. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cymeradwyo'r Fframwaith yn ffurfiol hyd yn hyn ac mae angen gwaith pellach er mwyn sicrhau cynllun ariannol cytbwys. Mae BILl Bro Morgannwg yn ymroddedig i sicrhau bod cydbwysedd ariannol yn cael ei gyflawni ac mae'n gweithio ledled y gymuned iechyd i sicrhau bod cynlluniau cadarn ar waith i gyflawni'r targedau ariannol a nodir yn y Rhaglen.

**Arwyddwyd:**

**Dyddiad:**

**Enw:** **Mrs A Harris**

**Swydd:** **Prif Weithredwraig**

**CYFRIF - 2004-2005**

**ATODIAD 1**

**DEFNYDDIO CYFRIFON A GOFYNION DATGELU'R DDEDDF CWMNIAU A SAFONAU CYFRIFON**

**Deddf Cwmniau**

1. Ni fydd yr eithriadau datgelu gan y Ddeddf Cwmniau yn berthnasol i'r GIG oni bai y cymeradwy-wyd yn benodol gan y Trysorlys.

2. Mae'r Ddeddf Cwmniau yn mynnu bod gwybodaeth benodol yn cael ei datgelu yn Adroddiad y Cyfarwyddwr. Hyd nes y bydd yn briodol, bydd yr wybodaeth sy'n ymwneud â chyrff GIG yn cael ei chynnwys yn y rhagair.

3. Bydd y datganiad cost gweithredu, mantolen a datganiad llif arian yn ystyried y ffurf a ragnodwyd yn y Llawlyfr Cyfrifa Adnoddau.

5. Nid yw'n ofynnol i gyrff GIG ddarparu gwybodaeth cost hanesyddol a ddisgrifir ym mharagraff (33) o Atodiad 4 i'r Ddeddf Cwmniau.

Safonau Cyfrifa

6. Nid yw'n ofynnol i gyrff GIG gynnwys nodyn yn dangos elw a cholledion costau hanesyddol fel y disgrifir yn FRS 3.

**ATODIAD 2**

**GOFYNION YCHWANEGOL**

1. Bydd y rhagair yn cynnwys datganaid bod y cyfrif wedi'i baratoi i gydymffurfio â Chyfarwyddyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag adran 98(2) o'r Ddeddf GIG 1977.

**CYFRIF - 2004-2005**

**CYFARWYDDYD CYFRIFON Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU A RODDWYD GAN GYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU YN UNOL AG ADRAN 98(2) DEDDF GWASANAETH IECHYD GWLADOL 1977 A CHYDA CHYMERADWYAETH Y TRYSORLYS**

**BYRDDAU IECHYD LLEOL**

1. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) yn cyfarwyddo y dylai cyfrif gael ei baratoi ar gyfer y y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2005 a blynyddoedd ariannol dilynol mewn perthynas â'r Byrddau Iechyd Lleol (BILl). Dylai'r sail baratoi a'r ffurf a'r cynnwys fod fel y nodir yn y paragraffau a'r Atodlenni canlynol.

**Y SAIL BARATOI**

2. Bydd cyfrifon y BILl yn cydymffurfio ag:

(a) ymarfer cyfrifo sy'n cael ei dderbyn yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (UK GAAP);

(b) gofynion cyfrifo a datgelu y Ddeddf Cwmnïau;

(c) yr holl safonau cyfrifo perthnasol a gyhoeddir neu a fabwysiedir gan y Bwrdd Safonau Cyfrifo, i'r graddau y maent yn briodol i'r GIG ac mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y bydd y cyfrifon yn cael eu paratoi ar ei chyfer;

(d) canllawiau cyfrifo sydd wedi eu cymeradwyo gan y FRAB ac wedi eu cynnwys yn y Llawlyfr Cyfrifo Adnoddau, fel y nodir yn Llawlyfr Cyfrifon y BILl , ond gan eithrio'n benodol atodlenni 1 a 5;

(e) y confensiwn cost hanesyddol a ddiwygiwyd yn sgil cynnwys asedau sefydlog yn ôl eu gwerth i'r busnes drwy gyfeirio at gostau cyfredol; a stociau ar yr isaf o gost cyfnewid gyfredol net (neu gost hanesyddol os nad yw'n sylweddol wahanol) a gwerth sylweddoladwy net.

**FFURF A CHYNNWYS**

3. Bydd cyfrif y BILl ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2005 a blynyddoedd dilynol yn cynnwys datganiad cost gweithredu, mantolen, datganiad llif arian a datganiad enillion a cholledion cydnabyddedig os yw FRAB yn gofyn am y datganiadau hyn, gan gynnwys unrhyw nodiadau sydd eu hangen i sicrhau dealltwriaeth briodol o'r cyfrifon.

4. Ar gyfer y flwyddyn ariannol yn gorffen 31 Mawrth 2005 a blynyddoedd dilynol, bydd cyfrif y BILl yn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa fel ag y mae ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a'r costau gweithredu, enillion a cholledion cydnabyddedig a llifoedd arian yn ystod y flwyddyn.

5. Bydd y fantolen yn cael ei llofnodi gan y prif weithredwraig a chyfarwyddwr cyllid y BILl a'i dyddio.

**AMRYWIOL**

6. Bydd y cyfarwyddyd yn cael ei ailgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon a gyhoeddir.

7. Bydd nodiadau gyda'r cyfrifon, ymhlith eraill yn cynnwys manylion y polisiau cyfrifa a fabwysiadwyd.

8. Gwneir nodiadau gydag eglurhad pellach o'r ffigyrau yn y cyfrifon ble yr ystyrir yn briodol ar gyfer dealltwriaeth gywir o'r cyfrifon.

Arwyddwyd gan awdurdod Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Llofnod : Christine Daws

Dyddiad :

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Ardystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau [2] i [38] o dan Adran 61 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol fel y'u haddaswyd gan y broses o ailbrisio rhai asedau sefydlog a'r polisïau cyfrifyddu fel y nodir ar dudalennau [6] i [10].

### Priod gyfrifoldebau Cyfarwyddwyr, y Prif Weithredwr a'r Archwiliwr

Fel y disgrifiwyd ar dudalen [40] mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Adran 98(2) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr hefyd yn gyfrifol am baratoi Rhagair/cynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Sefydlwyd fy nghyfrifoldebau i, fel archwilydd annibynnol, drwy statud a rhoddaf ystyriaeth i'r safonau a'r arweiniad a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio ac arweiniad moesegol y proffesiwn archwilio.

Adroddaf fy marn ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wneir o dan y Ddeddf honno, ac a yw'r gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr sylweddol, wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd, os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson â'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Bwrdd wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir, neu os nad wyf wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad.

Darllenaf y wybodaeth arall a gynhwysir yn yr Adroddiad Blynyddol ac ystyriaf p'un a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol archwiliedig. Ystyriaf y goblygiadau ar gyfer fy nhystysgrif os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau ymddangosiadol neu anghysonderau sylweddol â'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalen [41] i [43] yn adlewyrchu cydymffurfiad y Bwrdd ag arweiniad y Trysorlys a'r Cynulliad ar y Datganiad Rheolaeth Fewnol. Adroddaf os nad yw'n bodloni'r gofynion a bennir gan y Trysorlys a'r Cynulliad, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson â gwybodaeth arall yr wyf yn ymwybodol ohoni o'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol. Nid yw'n ofynnol i mi ystyried, ac nid wyf wedi ystyried, a yw'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn cwmpasu pob risg a rheolaeth. Nid yw'n ofynnol i mi ychwaith roi barn ar effeithiolrwydd gweithdrefnau llywodraethu corfforaethol y Bwrdd na'I weithdrefnau risg a rheoli.

## Tystysgrif ac Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i Aelodau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

### Sail y farn archwilio

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig a gyhoeddwyd gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, y dystiolaeth sy'n berthnasol i'r symiau, y datgeliadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r dyfarniadau o bwys a wneir gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisïau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Bwrdd, wedi eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n briodol.

Cynlluniais a chyflawnais fy archwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd, yn fy marn i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol i mi roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad perthnasol, boed hynny wedi'i achosi gan gamgymeriad neu drwy dwyll neu ryw afreoleidd-dra neu gamgymeriad arall a bod y gwariant a'r incwm, ym mhob ystyr berthnasol, wedi eu cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli. Wrth lunio fy marn rwyf hefyd wedi gwerthuso digonolrwydd cyffredinol y modd y cyflwynir y wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

### Barn

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o faterion Bwrdd Iechyd Lleol Bro Morgannwg ar 31 Mawrth 2005 a'r costau gweithredu net, enillion a cholledion cydnabyddedig a'r llifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben, ac fe'u paratowyd yn unol â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a'r cyfarwyddiadau a wnaed yn unol â'r Ddeddf honno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

- ym mhob ystyr sylweddol, mae'r gwariant a'r incwm wedi ei gymhwyso i'r dibenion a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

**Jeremy Colman**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**2-4 Park Grove**
**Caerdydd CF10 3PA**

**Dyddiad: 4 Awst 2005**